

**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
(Arolygiadau Safle)**

1 Gorffennaf 2020

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd A Wilcox.

[Ymunodd y Cynghorydd S Yelland â'r cyfarfod yn ystod y cyflwyniad]

(Arolwg Safle Rhithiol: 10.00 a.m. – 11.00 a.m.)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M Evans, Dr R Heath-Davies a Mrs S Hoss.

2. NP/20/0222/FUL Gosod ceblau trydan danddaear (gan gynnwys baeau uno dan y ddaear ac un piler cyswllt uwchben y ddaear) a cheblau ffibr optig danddaear; cwrt adeiladu dros dro a ffyrdd cludo deunydd adeiladu. Safle llinol yn ymestyn o'r fflatiau tywod rhynglanwol yn Freshwater West i Fferm Neath, Rhoscrowder, Penfro, Sir Benfro

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr arolwg safle rhithiol y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyswllt â safle'r cais a'r ardal gyfagos. Ni fyddai penderfyniad yn cael ei wneud tan i'r cais cynllunio gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Dywedwyd bod y prosiect hwn yn cynnig rhyng-gysylltydd trydan tanfor a thanddaear i gysylltu'r marchnadoedd pŵer yn Iwerddon a Phrydain. Byddai Greenlink (yr ymgeisydd) yn darparu cysylltiad grid newydd rhwng Swydd Wexford (Iwerddon) ac is-orsaf y Grid Cenedlaethol ym Mhenfro. Byddai'r pŵer yn gallu llifo i'r naill gyfeiriad neu'r llall, yn dibynnu ar y cyflenwad a'r galw ym mhob gwlad.

Dywedodd y Swyddog Cynllunio ei fod wedi gwahodd yr asiant i ddod i'r cyfarfod y diwrnod hwnnw, ond nad oedd hi ar gael. Fodd bynnag, byddai'r asiant yn bresennol pan fyddai'r Pwyllgor yn ystyried y cais, ac y byddai'n hapus i ateb unrhyw gwestiynau bryd hynny.

Aeth y swyddog rhagddo i roi trosolwg o'r cais gan ddweud bod yr ymgeisydd wedi darparu cyfres o olygfannau 360° ar hyd llwybr y cebl, ac



aeth ymlaen i ddangos y golygfannau. Ategwyd hyn gan ffotograffau a golygfeydd panoramig yr oedd yntau wedi'u tynnu ar y safle. Eglurodd y byddai'r cebl yn cael ei osod drwy wahanol ddulliau o ddrilio a thorri a llenwi ffos a hynny yn gyfeiriadol ac yn llorweddol o dan y ddaear. Roedd y rhan gyntaf o'r gwaith rhwng y distyll cymedrig a'r cwrt ar y tir i'w wneud drwy ddrilio o dan y ddaear gan fod yr ardal hon yn arbennig o sensitif o ran tirwedd. Tra bod y gwaith yn mynd rhagddo, dros 3-5 diwrnod ar y mwyaf, byddai ffens yn amgylchynu'r cwrt i'w ddiogelu rhag y cyhoedd.

Yr unig strwythur parhaol uwchben y ddaear yn y Parc Cenedlaethol fyddai piler cyswllt, oddeutu 1.3m o uchder o liw gwyrdd, lle byddai'r cebl morol yn ymuno â'r cebl tir. Byddai'r piler hwn wedi'i leoli mor agos at ffin y cae â phosibl. Holodd yr Aelodau a fyddai angen unrhyw ffens i ddiogelu'r piler, ac atebodd y swyddog nad oedd ffens yn rhan o'r cais, ond byddai'n gwirio hyn gyda'r asiant cyn y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Hefyd cytunodd i ddarganfod a fyddai gofyn cael unrhyw farcwyr lle'r oedd y cebl yn croesi ffyrdd, ac ati, fel yn achos y bibell nwy pwysedd uchel oedd yn croesi ar draws y Sir.

Aeth y swyddog rhagddo i egluro bod y prosiect hwn yn cysylltu â'r Grid Cenedlaethol, ac o'r herwydd byddai'r ceblau yn parhau o dan y ddaear nes cyrraedd gorsaf trawsnewidydd gerllaw Is-orsaf Penfro. Fodd bynnag, mae'r Is-orsaf hon wedi'i lleoli o fewn awdurdodaeth gynllunio Cyngor Sir Penfro (CSP). Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc bod cyfarfodydd wedi'u cynnal ar y cyd rhwng yr ymgeisydd, CSP a swyddogion yr Awdurdod Parc Cenedlaethol dros y pedair blynedd diwethaf, a'u bod yn parhau i gadw mewn cysylltiad agos. Roedd yr ymgeisydd hefyd angen caniatâd gan Lywodraeth Cymru a gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac roeddent wedi cael gwybod am hynt y cais. Fodd bynnag, cadarnhaodd y swyddog mai'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fyddai'n gwneud y penderfyniad ynglŷn â'r cais hwn, nid Llywodraeth Cymru.

Hefyd holodd yr Aelodau am y modd y byddai'r tir llenwi ffosydd yn cael ei adfer, ac atebwyd mai'r dewis a ffefrir oedd caniatáu hadu naturiol er mwyn diogelu bioamrywiaeth naturiol yr ardal. Hefyd cwestiynwyd a ellid disodli'r ffens weirog bresennol â chlawdd Sir Benfro, ond nid oedd swyddogion o'r farn y byddai hyn yn briodol mewn tirwedd mor agored.

Yn ogystal â dangos y dirwedd ehangach, roedd ffotograffau'r Swyddog yn nodi lleoliad nifer o nodweddion, gan gynnwys y gofeb ryfel, oedd rhyw 130 metr i ffwrdd o fan agosaf y datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, gan fod y cebl yn y rhan hon o'r llwybr yn cael ei osod drwy ddrilio o dan y ddaear, ni fyddai unrhyw effaith tymor hir ar leoliad y gofeb. Hefyd byddai llwybr y cebl yn weladwy o'r llwybr cyhoeddus 37/3, ond rhagwelir mai effaith gyfyngedig a byrhoedlog fyddai hyn.



Yn olaf holodd yr Aelodau ynghylch codi arwyddion, gan eu bod o'r farn bod cyfathrebu da â'r gymuned leol, Aelodau o'r Senedd a'r Aelodau Seneddol yn bwysig iawn. Dywedodd y swyddog yr ymgynghorwyd â'r eiddo cyfagos fel rhan o'r broses gynllunio, ond oherwydd natur tymor byr y gwaith, byddai arwyddion yn achosi mwy fyth o effaith weledol, a barnwyd bod hynny yn amhriodol.

Gan ddiolch i'r swyddog am gyflwyniad clir a defnyddiol, diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu'r ymweliad safle, a daeth â'r cyfarfod i ben.

